| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **13 Ionawr 2015** |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Moderneiddio Addysg – Ysgolion Cynradd Ardal Rhuthun** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion ac i argymell i'r Cyngor y dylid cymeradwyo buddsoddiad mewn tri phrosiect ysgol gynradd yn ardal Rhuthun.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Cyngor yn symud ymlaen â rhaglen uchelgeisiol ar gyfer buddsoddi yn yr ystâd ysgolion. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar gyfer Aelodau ac yn gofyn am gymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam nesaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r Cabinet:

(i) I gymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Llanfair DC ac Ysgol Pentrecelyn ar y 31ain o Awst 2016 ac i agor ysgol Categori 2 Gwirfoddol a Reoli wedi ei lleoli ar y safleoedd presennol ar y 1af o Fedi 2016.

(ii) I gymeradwyo ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Rhewl ar y 31ain o Awst 2017 gyda'r disgyblion yn trosglwyddo i unai Ysgol Penbarras neu Ysgol Stryd y Rhos i gydfynd gydag agor adeiladau ysgol newydd.

(ii) I argymell i'r Cyngor gymeradwyaeth o achosion busnes a dyraniad cyfalaf ar gyfer
1. yr olynydd i'r ddarpariaeth bresennol Ysgol Stryd yr Rhos / Ysgol Pen Barras ar safle Glasdir.
2. adeilad ysgol newydd i Ysgol Carreg Emlyn
3. adeilad ysgol newydd ar gyfer ysgol ardal Llanfair a Pentrecelyn, yn ddibynnol ar ddeilliant y cynnig ad-drefnu ysgolion.

## 4. Cynigion Adolygiad Ysgolion Cynradd Ardal Rhuthun

4.1 Fel rhan o Gynllun Corfforaethol y Cyngor, mae'r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad, yn ychwanegol at ariannu Ysgolion yr 21[ain] Ganrif, i fuddsoddi adnoddau pellach i gynnal adolygiadau ardal ac i ailwampio a gwella ein hysgolion. Ym mis Gorffennaf 2014 rhoddodd y Cabinet yr awdurdod i gynnal astudiaethau dichonoldeb mewn perthynas â thri phrosiect (byddai cwblhau'r rhain yn destun penderfyniadau cyllidebol yn y dyfodol).

4.2 Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell y dylai'r Cabinet gymeradwyo'r achosion busnes ar gyfer buddsoddi yn y tri phrosiect cyfalaf canlynol:-

- Codi ysgol gynradd newydd ar safle Glasdir yn Rhuthun yn lle adeiladau presennol Ysgol Penbarras ac Ysgol Stryd y Rhos.
- Codi ysgol newydd yng Nghlocaenog ar gyfer Ysgol Carrog Emlyn yn lle'r adeiladau ysgol presennol yng Nghlocaenog a Chyffylliog
- Codi ysgol ardal newydd i wasanaethu cymunedau Llanfair a Phentrecelyn

Mae crynodeb o'r sail resymegol ar gyfer y prosiectau yn Atodiad 1 ac mae'n esbonio'r rhesymau dros y buddsoddiadau arfaethedig. Yn eu cyfarfod ar 16 Rhagfyr, ystyriodd y Grŵp Buddsoddi Strategol yr Achosion Busnes llawn ar gyfer y prosiectau ac argymell bod y Cabinet yn eu cymeradwyo.

4.3 Er mwyn symud ymlaen â'r prosiectau hyn, bydd yn rhaid i'r Cabinet roi cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori ar ddau o'r cynigion.

4.4 <u>Codi Ysgol Ardal Newydd ar gyfer Llanfair a Phentrecelyn</u>

4.5 Mae'r Cyngor, mewn partneriaeth ag Esgobaeth yr Eglwys yng Nghymru, yn dymuno dechrau ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst 2016 er mwyn hwyluso agor ysgol ardal newydd i wasanaethu cymunedau Llanfair a Phentrecelyn. Yn y tymor hir mae'r Cyngor yn credu na fyddai parhau â'r sefyllfa bresennol yn gynaliadwy ac y byddai'r cynnig yn gam ymlaen i ddarparu ysgol newydd i wasanaethu'r gymuned. Mae'r cynnig yn argymell agor ysgol ardal newydd a fyddai'n Ysgol Reoledig Wirfoddol cyfrwng Cymraeg a Saesneg (Categori 2) yn unol â dewis y rhieni. Ar hyn o bryd mae Ysgol Llanfair yn ysgol ddwy ffrwd ac mae Ysgol Pentrecelyn yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gyfer disgyblion a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg ni ddylai fod unrhyw effaith o ran canlyniadau yn sgil y cynigion hyn a bydd yn bwysig bod y Corff Llywodraethu newydd yn monitro hyn yn y dyfodol i sicrhau bod ethos cryf Cymreig yn cael ei gadw.

4.6 Mae dogfen ymgynghori ddrafft wedi ei pharatoi (gweler Atodiad 2) ac, os yw'r Cabinet yn cymeradwyo ymgynghori, bwriedir ymgynghori ar y cynnig hwn rhwng y 3 Chwefror ac 16 Mawrth. Rhagwelir y bydd canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai 2015. Yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, rydym ni wedi ymgynghori â'r Eglwys yng Nghymru ac maent ar y cyfan yn cefnogi'r cynnig.

4.7 <u>Cau Ysgol Rhewl</u>

4.8 Mae dyfodol Ysgol Rhewl wedi ei ystyried fel rhan o'r arfarniad opsiynau ar gyfer safle Glasdir. Mae'r prif gymhellion ar gyfer y cynigion ar gyfer Rhuthun yn cynnwys mynd i'r afael â chyflwr adeiladau a lleoedd dros ben ac ystyrir bod y cymhellion hyn yn effeithio ar gynaliadwyedd tymor hir Ysgol Rhewl. O fis Medi 2014 roedd gan Ysgol Rhewl 53 o ddisgyblion llawn amser a 29 o leoedd dros ben (35%).

4.9 Wrth ystyried yr holl opsiynau ar gyfer safle Glasdir roedd angen ystyried beth fyddai effaith y cyfleusterau newydd ar y safle hwn ar hyfywedd Ysgol Rhewl oddeutu 1.1 milltir i ffwrdd. Roedd asesiad diweddar o'r adeilad yn awgrymu bod y rhan fwyaf o'r ffabrig presennol wedi mynd y tu hwnt i'r bywyd dylunio disgwyliedig ac y byddai angen cryn dipyn o waith ar yr ysgol i sicrhau ei bod yn cyrraedd y safon. O ystyried nifer y disgyblion a'r angen tymor hir i fuddsoddi yn yr adeilad, credir y byddai cau'r ysgol a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Penbarras neu Stryd y Rhos yn ddewis tymor hir cynaliadwy.

4.10 Mae dogfen ymgynghori ddrafft wedi ei pharatoi (gweler Atodiad 3) ac, os yw'r Cabinet yn cymeradwyo ymgynghori, bwriedir ymgynghori ar y cynnig hwn rhwng y 10 Chwefror a 23 Mawrth. Rhagwelir y bydd canfyddiadau'r ymarfer ymgynghori yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai 2015.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd y cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol o "wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion".

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Byddai cost cynnal ymgynghoriad ar y cynigion yn gymharol fach a byddai'r prif gostau yn cynnwys costau argraffu a phostio ac amser swyddogion. Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion a'u gweithredu, rhagwelir y bydd angen cefnogaeth AD ar staff a effeithir arnynt yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y newidiadau arfaethedig.

6.2 Cost y tri phrosiect cyfalaf ar gyfer ardal Rhuthun yw oddeutu £15.1 miliwn. Mae'r gost hon wedi ei chlustnodi ar gyfer buddsoddi mewn prosiectau Moderneiddio Addysg fel rhan o ddatblygiad cyfalaf yn y Cynllun Corfforaethol. Bydd cynnydd y prosiectau yn cael effaith ar nifer o adrannau gan gynnwys Dylunio, Adeiladu a Chynnal a Chadw, Prisio ac Ystadau a'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae AEC wedi ei wneud ar y cynigion ac ynghlwm wrth Atodiad 4.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad anffurfiol ar y materion sy'n effeithio ar Ysgolion Cynradd Ardal Rhuthun ddechrau 2013. Mae Cadeiryddion y Llywodraethwyr, Penaethiaid ac Aelodau Lleol ar gyfer y tair ysgol yn ymwybodol o'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet a bydd cyfle iddynt ymateb i’r cynigion fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Cost y tri prosiect cyfalaf ar gyfer adolygiad Ardal Rhuthun ydi oddeutu £15m. Gan nad yw'r cynlluniau yn rhan o brosiectau Band A Ysgolion 21ain Ganrif, bydd yn ofynnol i'r Cyngor gyllido'r cyfan o’r gost cyfalaf sydd yn ymwneud ar cynigion. Daw buddsoddiad ar y raddfa yma a risg gyllidol ac oherwydd bydd yn angenrheidiol cael rheolaeth prosiect a chyllidol cadarn. Dylai'r cynigion greu arbedion refeniw a fydd yn gallu cael eu hail-fuddsoddi i raglen buddsoddi'r Cyngor i gyllido'r benthyciad. Bydd cwblhau'r tri phrosiect hefyd a'r potensial i greu derbyniadau cyfalaf.

## 10. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae nifer o risgiau yn cael eu rheoli ar hyn o bryd ar lefel rhaglen gan y Bwrdd Rhaglen Moderneiddio Addysg. Bydd pob prosiect unigol yn cynnwys gweithdrefnau rheoli risg.

## 11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r cynigion yn cyd-fynd â'r Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu'r gofyniad deddfwriaethol i awdurdodau lleol adolygu cynigion ysgolion ac i symud ymlaen cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion.